



Yr Holocost a Chymru Kindertransport 3

Cyrraedd Cymru

Crëwyd gan y Ganolfan Astudio
Symudedd Pobl (CASP) ym
Mhrfysgol Aberystwyth



Crëwyd mewn partneriaeth rhwng CASP a Chymdeithas
Hanes Iddewig De Cymru (CHIDC) a'i ariannu gan
Gymdeithas y Ffoaduriaid Iddewig (AJR)



Yr Holocost a Chymru

Kindertransport 3

Cyrraedd Cymru

Adnodd 3 o 4 yw hwn ar destun Kindertransport a gellir ei ddefnyddio ochr yn ochr â'r 3 adnodd arall. Mae'r adnoddau'n archwilio hanesion plant a oedd yn ffoaduriaid a ddaeth ar y Kindertransport i Gymru.

Mae'r adnodd wers hon yn archwilio stori Bea Green, ffoadur ifanc Iddewig o'r Almaen, a deithiodd i Brydain ar Kindertransport ac a oedd yn byw yng Nghymru ar ôl i'w hysgol gael ei symud yma fel rhan o'r cynllun ymgilio.

Mae'n cynnwys:

- Gwybodaeth gefndir am y Kindertransport a ble i ddarganfod mwy
- Disgrifiad byr o statws estron-elynn yn ystod yr Ail Ryfel Byd a ble i ddarganfod mwy
- Bywgraffiadau byr o Bea Green a Dorothy Fleming
- Diffiniad defnyddiol: Diffiniad gweithredol Cynghair Rhyngwladol Cofio'r Holocost o wrthsemitiaeth
- Dolenni i glipiau sain a fideo o recordiadau hanes llafar o Bea Green a Dorothy Fleming
- Llun o gerdyn Estron-elynn a Charcharor Bea Green
- Trawsgrifiadau o'r clipiau fideo a sain

Mae'r adnodd yn rhagdybio dealltwriaeth sylfaenol o'r Holocost. Efallai y byddwch am gyflwyno taflen waith Ymddiriedolaeth Addysgol yr Holocost (HET), ['Diffinio'r Holocost'](#), cyn archwilio'r adnoddau hyn. Gweler hefyd [Egwyddorion Cyffredinol HET ynglŷn ag Addysgu am yr Holocost](#).



Gwybodaeth gefndir am y Kindertransport

Cyn gynted ag y daeth Adolf Hitler a'r Natsïaid i rym yn yr Almaen ym mis Ionawr 1933, dechreuwyd erlid eu gwrthwynebwyd gwleidyddol a thrigolion Iddewig. Ceisiodd llawer ohonynt ddianc rhag yr erledigaeth hon trwy ffoi, ond ychydig o wledydd o gwmpas y byd oedd yn fodlon eu derbyn.

Gwaethygodd y sefyllfa yn sgil y pogrom mis Tachwedd (Kristallnacht) a chyfeddiant yr Almaen o Awstria a Tsiecoslofacia ym 1938 a 1939. I lawer, 'roedd y rhybudd bellach yn glir. O 1933-39, bu 400,000 o ffoaduriaid yn ffoi rhag y Drydedd Reich.

'Roedd 'na reolau llym ynglyn â mynediad i'r DU. Dim ond i'r ffoaduriaid hynny oedd â'r posibilrwydd o ymfudo'n barhaol i rywle arall, neu yr ystyrid bod eu presenoldeb yn fanteisiol i'r DU y rhoddwyd fisâu. Roedd rhai'n cael dod i'r wlad trwy gymorth perthnasau, ffrindiau neu elusennau. Erbyn mis Medi 1939, 'roedd tua 78,000 o ffoaduriaid o Ganol Ewrop yn byw yn y DU, ac 'roedd 12,000 ychwanegol wedi cyrraedd ac ail-ymfudo. 'Roedd tua 90% o'r ffoaduriaid hyn yn Iddewig, a mwy na thebyg daeth tua 2,000 ohonynt i Gymru. Ar ddechrau'r rhyfel, daeth mewnfudiad o Reich yr Almaen i ben i bob pwrpas.

Wrth ffoi ledled Ewrop i ddianc rhag y Natsïaid, cyrhaeddodd tua 10,000 o blant Iddewig Brydain Fawr rhwng Rhagfyr 1938 a Medi 1939 ar Kindertransport (Trafnidiaeth Plant). Cynllun hepgor fisa oedd hwn ar gyfer plant a oedd yn cael eu herlid am fod yn Iddewig yn Reich yr Almaen ac roedd yn ymateb i bwysau cyhoeddus ar ôl pogrom Tachwedd. Roedd yn rhaid i blant gael eu gwarantu gan flaendal o £50 gan noddwr (e.e. unigolion, y gymuned Iddewig, grwpiau eglwysig, cwmnïau cydweithredol gweithwyr), a oedd yn talu am eu cynhaliaeth hyd at ddeunaw oed – dros £4,000 mewn arian heddiw.



Dim ond plant dan oed ar eu pen eu hunain a dderbyniodd llywodraeth Prydain trwy'r cynllun hwn, er bod y rhan fwyaf ohonyn nhw'n byw gyda'u rhieni ac aelodau eraill o'u teuluoedd cyn iddyn nhw ffoi. Teithiodd y rhan fwyaf o Reich yr Almaen ar drên ac yna mewn cwch (gan adael yr Iseldiroedd fel arfer a chyrraedd Harwich yn Essex), ond hedfanodd eraill mewn awyren.

Trefnwyd y cludiant gan sefydliadau ar y Cyfandir a gan y Refugee Children's Movement, sefydliad ymbarél yn y DU. Roedd rhai plant yn cael eu cefnogi gan grwpiau nad oedden nhw'n lldewig, fel Cymdeithas y Cyfeillion (Crynwyr). Nid oedd llywodraeth Prydain yn ariannu nac yn trefnu'r cludiant. Cawsant eu trefnu gan gannoedd o wirfoddolwyr. Nicholas Winton, bancwr Prydeinig, yw un o'r rhai mwyaf adnabyddus, ond roedd llawer o rai eraill. Helpodd Winton i achub 669 o blant trwy drefnu cludiant o Prague, Tsiecoslofacia.

Daeth llawer o blant i Gymru. Arhosodd rhai gyda pherthnasau, cafodd eraill eu maethu gan deuluoedd Cymreig. Rhwng 1939 ac 1941 cafodd tua 200 o blant lldewig ar ffo lety yng Nghastell Gwrych yn Abergele, yn ogystal â Chastell Llandochau ym Morgannwg. Yn ystod y rhyfel, cafodd plant eraill eu symud i Gymru o ardaloedd megis Llundain, neu Ysgol Gwladwriaeth Tsiecoslofacia yn Llanwrtyd, a leolid yn yr Abernant Lake Hotel rhwng 1943 ac 1945.

I gael rhagor o wybodaeth am y Kindertransport, gweler:

- <https://encyclopedia.ushmm.org/content/en/article/kindertransport-1938-40>
- <https://wp-research.aber.ac.uk/nsrefugeeswales/cy/hanes/plant-y-kindertransport/>



Llyfrau: Andrea Hammel, The Kindertransport: What Really Happened (Polity, 2024); Jennifer Craig-Norton, The Kindertransport: Contesting Memory (Indiana University Press, 2019); Vera K. Fast, Children's Exodus: A History of the Kindertransport (I.B. Taurus, 2011); Judith Tydor Baumel-Schwartz, Never Look Back: The Jewish Refugee Children in Great Britain, 1938-1945 (Purdue University Press, 2012)

Statws estron-elyn yn ystod yr Ail Ryfel Byd

Wedi dechrau'r rhyfel ym mis Medi 1939, cafodd pob Almaenwr ac Awstriad ym Mhrydain eu dosbarthu fel 'estron-elynion', wâeth beth oedd eu hagwedd at y gyfundrefn Natsïaidd. Sefydlodd y Swyddfa Gartref 120 tribiwnlys i fynd i'r afael â'r mater rhwng mis Medi a mis Rhagfyr 1939, gyda phob 'estronwr' yn cael eu dosbarthu'n dri chategori (A, B neu C), yn dibynnu ar y perygl tybiedig i'r ymdrech ryfel. Cafodd rhai eu rhwystro rhag defnyddio ceir a beiciau modur, neu berchen camera neu fapiau (hyd yn oed rhai mewn llyfrau taith). Cafodd y rhai a ystyriwyd y mwyaf 'perylus' eu caethiwo mewn gwerysilloedd amrywiol ledled y wlad, y mwyaf ohonynt oedd gwerysill Hutchinson ar Ynys Manaw.

Er mai dim ond ychydig gannoedd o bobl gafodd eu caethiwo ar y dechrau, cafodd y llywodraeth ei dychryn fwyfwy wrth i'r rhyfel fynd yn ei flaen. Y mis Mai 1940, sefydlwyd 'ardaloedd gwarchoddedig' mewn ardaloedd arfordirol y tybiwyd y byddent yn agored i oresgyniad lle na chaniatawyd unrhyw estroniaid, a chafodd bob estron yn y categori 'risg' canolig eu caethiwo. Erbyn mis Mehefin 1940, estynnwyd hyn i gynnwys Almaenwyr, Awstriaid, ac erbyn hynny, Eidalwyr, dynion dros 16 mlwydd oed, yn ogystal â menywod yn y ddau gategori 'risg' uchaf. Canlyniad



hynny oedd caethiwo tua 28,000 'gelyn estron' (y mwyafrif ohonynt yn ffoaduriaid Iddewig).

Am fwy o wybodaeth am estron-elynion a chaethiwed, gweler:

- <https://wp-research.aber.ac.uk/nsrefugeeswales/cy/hanes/caethiwed/>
- <https://blog.nationalarchives.gov.uk/collar-lot-britains-policy-internment-second-world-war/>
- <https://www.sussex.ac.uk/webteam/gateway/file.php?name=pistol-enemy-alien.pdf&site=15>

Diffiniad gweithredol Cynghrai Rhyngwladol Cofio'r Holocaust o wrthsemitiaeth

'Gwrthsemitiaeth yw canfyddiad penodol o Iddewon, y gellir ei fynegi fel casineb tuag at Iddewon. Mae amlygiadau rhethregol a chorfforol o wrthsemitiaeth yn cael eu cyfeirio at unigolion Iddewig neu rai nad ydynt yn Iddewon a/neu eu heiddo, tuag at sefydliadau cymunedol a chyfleusterau crefyddol Iddewig.'

Dolen: <https://holocaustremembrance.com/resources/working-definition-antisemitism>



Ffynhonnell hanesyddol 1: Bywgraffiad byr o Bea Green

Ganwyd Bea Green ym Munich, yr Almaen ym 1925. Roedd hi'n byw mewn bloc o fflatiau yn y ddinas gyda'i thad (oedd yn gyfreithiwr), ei mam a'i brawd hŷn. Bu i Bea fynychu'r ysgol gynradd leol ac roedd ganddi fywyd hapus. Ym mis Mawrth 1933, bu i'w thad gael ei guro yn greulon mewn ymosodiad gwrth-semitig. Hyd yn oed ar ôl y digwyddiad ofnadwy hwn a Hitler bellach mewn grym, i ddechrau roedd gan deulu Bea deimladau cymysg ynglŷn â gadael. Roedd ei thad wedi adeiladu practis cyfreithiol llwyddiannus ac roedd ganddynt fywyd dymunol.

Ond ym 1938, bu i ysgol Bea gau ac ar ôl Kristallnacht daeth pethau'n fwyfwy peryglus ac anobeithiol. Roedd y teulu'n gwybod yr oedd rhaid iddyn nhw wneud popeth o fewn eu gallu i ddianc. Ymhen amser, ym mis Mehefin 1939, teithiodd Bea i Brydain ar y Kindertransport gan adael ei rhieni ar ôl. Cafodd ei chymryd i mewn gan y teulu Williams yn Lloegr. Ar ôl i'r Ail Ryfel Byd ddechrau, cafodd Bea ei symud i Gymru lle arhosodd am beth amser. Yn y pen draw, sawl blwyddyn yn ddiweddarach, bu iddi aduno gyda'i rhieni. Ymgartrefodd yn ne Llundain gyda'i gŵr a'u tri o blant a chafodd yrfa fel ieithydd a chyfieithydd a byddai'n siarad â grwpiau am ei phrofiadau.

Ffynhonnell hanesyddol 2: Bywgraffiad byr o Dorothy Fleming

Ganed Dorothy Fleming yn Fienna, Awstria ym 1928. Daeth o deulu lldewig dosbarth canol a bu'n byw bywyd hapus tan yr



Anschluss ym 1938. Roedd yn ddeg oed pan anfonodd ei rhieni hi a'i chwaer ar Kindertransport i Brydain er mwyn dianc rhag y Natsiaid. Treuliodd lawer o'r Ail Ryfel Byd gyda pherthnasau yng Nghaerdydd a mynychodd Ysgol Howell's. Yn wahanol i lawer o blant y Kindertransport, llwyddodd rhieni Dorothy i ffoi i Loegr. Daeth yn ddinesydd Prydeinig ym 1947 ac yn ddiweddarach cymhwysodd fel athrawes, gan sefydlu meithrinfa Iddewig gyntaf Sheffield, lle bu'n bennaeth tan ei hymddeoliad.

Ffynhonnell hanesyddol 3: [Clip Fideo: Bea Green – Cyrraedd Cymru](#)

Ffynhonnell hanesyddol 4: [Clip Sain: Bea Green – Estron-elyn](#)

Ffynhonnell hanesyddol 5: [Clip Sain: Dorothy Fleming – Estron-elyn](#)

Ffynhonnell hanesyddol 6: [Clip Sain: Bea Green – Gwrth-semitiaeth](#)



Ffynhonnell hanesyddol 7: Llun o gerdyn Estron-elyn a Charcharor Bea Green, 1941-7

Mariam HILL Richard Dawing (BS) 22-7-46, London.
REGIONAL ADVISORY COMMITTEE

APPEAL DECISION REFUGEE - FEMALE

(1) Surname (*block capitals*) ^{see} S I E G E L - H I L L
Forenames Maria Beate
Alias Maria Beate Sara SIEGEL

(2) Date and place of birth 14 March 1925 in Munich

(3) Nationality German *now BS*

(4) Police Regn. Cert. No. 8 3 9 8 0 0 Home Office reference, if known
Special Procedure Card Number, if known

(5) Address Bryngwalia, Llangedwyn,
Near Oswestry, Denbighshire

(6) Normal occupation Schoolgirl

(7) Present Occupation Schoolgirl

(8) Decision of Tribunal ~~Left subject to 6A & 9A~~
~~Left subject to 9A~~ } Strike out which do not apply.
~~Exempt from 6A & 9A~~

(9) Decision of Advisory Committee Exempted from 6A & 9A } Strike out which does not apply.
~~Left subject to 6A & 9A~~

*[8257] 51355/590 53m (8 sorts) 3/40 4070 G & S 704 BS

[OVER]

Delwedd: Cerdyn Estron-Elyniion a Chaethiwedigion ar gyfer Maria Beate Siegel. Findmypast. Dogfen wreiddiol: © Hawlfraint y Goron.
Atgynhyrchwyd y ddelwedd trwy garedigrwydd yr Archifau Cenedlaethol, Llundain, Lloegr

Dolen: <https://www.casgliadywerin.cymru/items/1832751>



Trawsgrifiadau

[Clip Fideo: Bea Green – Cyrraedd Cymru](#)

Fodd bynnag, pan gawsom ein symud, ni ddaeth y rhan fwyaf o'r ysgol gyda ni. Yn y diwedd, rwy'n meddwl, dim ond tua deuddeg neu dri ar ddeg neu bedwar ar ddeg o blant aeth ar y trêh hwn i Gymru, oherwydd bod yr ysgol wedi rhentu neu achub y blaen ar y rhent – beth bynnag a wnaethant, wn i ddim – ar ddy yng Nghymru. Mae'n debyg bod y Creighton Davieses yn dod o Gymru, o darddiad Gymreig, felly byddai hynny wedi bod yn beth naturiol iddyn nhw ei wneud. Felly, fe aethom ar y trêh hwn i'r Trallwng, oddi yno i'w gymryd, dwi ddim yn cofio sut, i'r ffermdy hwn o'r enw Mathrafal – a dywedodd ffrind i mi wrthyf y diwrnod o'r blaen, ei fod yn bodoli o hyd. Felly, aethon ni i Fathrafal ger y Trallwng.

Nawr, roedd y daith drên honno yn gyfnod arall o ofn, oherwydd, fel y dywedais o'r blaen, nid oeddwn yn ofni pan gwmpodd y bom, nid oeddwn yn ofni pan gefais fy nhorri – nid oedd yn fy mhoeni, rydych chi'n gwybod, rydych chi'n mynd i mewn i'r seler ac rydych chi'n fyw a dyna'r cyfan sy'n bwysig. Ond pan oeddem yn eistedd mewn trêh, naill ai heb oleuadau ymlaen neu gyda'r bleindiau i lawr, yn mynd trwy tref, trwy tref ar ôl tref gyda seirenau'n canu, roeddech chi'n teimlo'n gaeth mewn trêh, roedd hynny'n real ... roedd hynny'n frawychus. Roeddwn i wir wedi dychryn. Ond yna rydyn ni'n dirwyn i ben yng Nghymru! Nawr, dau beth: a, roedd yn hyfryd bod yng Nghymru, rwy'n caru Cymru. Roedd y Cymry'n fy addoli mewn egwyddor oherwydd nad oeddwn i'n Sais – y Cymry hynny y gwnes i eu cyfarfod; wyddoch chi, mae problem rhwng y Cymry a'r Saeson weithiau. Ac roeddwn i wrth fy modd oherwydd bod y rhyfel yn bell i ffwrdd. Ac er ein bod ni'n cadw'r blackouts, roedd yn fath o beth gorun i'w wneud, nid oedd unrhyw awyrennau, dim byd.

Fodd bynnag, roedd aflonyddu ar y ffermdy. Nawr, nid wyf yn credu mewn ysbrydion, yn ddeallusol dydw i ddim, ond roedd yna gleciadau od yn digwydd yn y tŷ hwn. Unwaith eto, roeddwn i'n fath o ddarllen stori amser gwely i'r rhai bach, ac roedd y sŵn curo, curo, curo hwn. Ac fe lefodd un o'r merched bach, a dywedais, 'Na, na, na, na, dim ond y brifathrawes sy'n procio'r tân.' Wel, nid oedd yn agos at y lle tân – doedden nhw ddim yn

gwybod hynny. A dywedodd y brifathrawes, 'Alla i ddim aros yn y tŷ hwn, mae yna ysbryd!' Felly, daeth hi o hyd i dŷ modern iawn, wedi'i adeiladu yn y tridegau mae'n debyg, lle bu'n rhaid i dri ohonom gysgu mewn un gwely dwbl bach, nid oedd gennym le i gysgu ar led y gwely, felly ni chafodd yr un oedd yn cysgu yn y canol erioed unrhyw orchudd o gwbl, oherwydd i'r ddwy arall ei ymestyn drosti.

Ond, wel, fe wnaethon ni oroesi hynny hefyd, ac yna daeth o hyd i dŷ mawr i'w rentu, o'r enw Neuadd Bryn Gwalia ger Croesoswallt, ac roedd hynny ychydig yn arw yn yr ystyr mai gaeaf oedd hwn, ac nid oedd – nid oedd darn o ddodrefn yn y lle hwn, a llwyddodd i drefnu popty, a gwnaeth y saer lleol welyau inni allan o ddarnau o bren a wnaeth yn goesau a gwifren cyw iâr. A dim ond blancedi oedd gyda ni, ac wrth gwrs, roedd hi'n ofnadwy o oer, felly rhoddais fy mlancedi ar y llawr yn lle a chysgu ar y llawr called gyda'r blancedi. A maes o law, mae'n debyg i ni gael gwelyau mae'n rhaid, a beth bynnag, daeth y gwanwyn, a daeth y clychau'r gog allan a'r cennin Pedr, ac roeddwn i wedi dod yn arweinydd cwmni i'r Geidiau, roeddwn i wedi ymuno â'r Girl Guides, a roeddwn i wedi pasio nifer o fathodynau erbyn hynny, hyd yn oed cyn i ni adael.

[Clip Sain: Bea Green – Estron-elyn](#)

Ym mis Mawrth 1941 roeddwn yn 16 oed, a rhwng Mawrth y 13eg a Mawrth y 14eg, deuthum yn estron-elyn. Roedd yn rhaid i mi gofrestru yn yr heddlu neu rhywle neu'i gilydd efallai fod gen i ddal hwn – na, nid wyf yn credu bod gen i – beth bynnag, roedd gennyf y ffotograff hwn mewn llyfr cofrestru estroniaid bach llwyd a oedd yn dangos pa mor oer ac yn dioddef o losg eira oeddwn i ar y pryd. Rydych chi'n gweld, i mi, nid oeddwn i'n ffoadur; i mi, roeddwn wedi dod yma: eu problem nhw oedd beth oedden nhw'n meddwl.

Pan es i'r orsaf heddlu hon, mae'n debyg ei bod yn ffodus ein bod yng Nghymru oherwydd eu bod yn gwneud yn fach o'r peth. Felly, roeddwn yn gwybod ei fod yn taro pobl ac eto roedd yn rhywbeth roedd yn digwydd – a ddigwyddodd fel tywydd gwael. Wyddoch chi, fe wnaethoch chi ei gymryd ac roedd gen i'r cerdyn hwn ac roedd heddlu Cymru yn garedig efo fi a ... rydych chi'n gwybod fy mod i, wnaeth e ddim – dwi ddim yn credu ei



fod yn amharu llawer. Roedd yr hyn a rwystrodd yn rhywbeth llawer dyfnach yr oeddwn yn ymdopi ag ef trwy ddweud wrthyf fy hun 'Byddaf yn dangos iddynt pwy ydw I'.

Clip Sain: Dorothy Fleming – Estron-elyn

Felly, roedden ni yng Nghaerdydd ac yno es i i Ysgol Howell, sy'n ysgol ragorol. Nid wyf yn gwybod sut y clywodd fy mam mai hon oedd yr ysgol orau, ond mae'n amlwg ei bod, a rhaid eu bod wedi crafu a chynilo. Roedd gen i ryw fath o ysgoloriaeth, ond serch hynny roedd ganddyn nhw rhywbeth i'w dalu. Ond wyddoch chi, mae pobl Iddewig yn ystyried addysg yn uchel iawn ac felly, roedden nhw'n teimlo ei bod hi'n aberth werth ei wneud.

Felly, ar wahân i ambell cyrch awyr, y cyntaf roeddwn i'n ei wybod o ddifrif am y rhyfel oedd y diwrnod y deuthum yn 16, ac rwy'n credu yn 16 oed y deuthum yn estron-elyn. Hyd at hynny roeddwn i wedi bod yn blentyn ond pan oeddech chi'n 16 oed roeddech chi'n estronelyn ac roedd yn rhaid i mi fynd i adrodd i'r heddlu ac roedd fy nghyd-ddisgyblion yn fy chwerthin allan ohono ac yn dweud, 'Peidiwch â phoeni, rydyn ni'n gwybod nid ydych chi'n estrones.'

Clip Sain: Bea Green – Gwrth-semitiaeth

Tra oeddwn i dal yn Aberystwyth, ddes i ar draws rhywfaint o wrth-semitiaeth ar ffurf anghyffredin. Roedd cyd-fyfyriwr yn fy mlwyddyn oedd hefyd yn gwneud Almaeneg – bachgen o'r enw Stan Price – wedi bod, fel dyn iau fyth, yn llawn brwdfrydedd dros Hitler a'i holl syniadau a delfrydau ac wedi bod yn yr Almaen ac wedi gweithio i'r Arbeitsdienst [Reichsarbeitsdienst, sy'n golygu'r Gwasanaeth Llafur Genedlaethol neu Reich] ond daeth yn ôl wedi blwyddyn neu ddwy yn gwneud hyn er mwyn dilyn ei astudiaethau ac yna fe ddechreuodd y rhyfel ac ymunodd â'r fyddin. Hynny yw, roedd cyn iached a'r gneuen ac ymunodd â'r fyddin. Ac ar un o'r symudiadau yr oedd arno fe naill ai saethodd ei hun yn y droed neu droedio ar fwynglawdd neu rhywbeth ... beth bynnag fe saethodd ei fod yn troed i ffwrdd neu fe gollwyd bawd ei droed yn rhywle. Ac felly,



gollyngwyd ef yn wael o'r fyddin ac yn rhannol oherwydd ei argyhoeddiadau ers talwm ac yn rhannol oherwydd ei fod wedi digio at fyddin Prydain am iddo orfod colli ei bodyn droed, dychwelodd at neu ymgwymerodd eto â'i syniadau gwreiddiol o, wyddoch chi, y Herrenvolk ac..., rhagoriaeth hiliol a hynny i gyd a thraethu hyn yn gyhoeddus.

Pan sylweddolodd ei fod wedi fy nghynhyrfu – oherwydd ar wahân i hynny roeddem wedi bod yn gydweithwyr ac yn ffrindiau ac yn yr un grŵp – dim ond rhyw chwech neu saith ohonom yn ein blwyddyn ni wnaeth Almaeneg – dywedodd 'Wel, wyddoch chi, chi' yn iawn.' Rydych chi'n gwybod, y ddadl rydych chi'n iawn, yr lddewon eraill i gyd ydyw. Ac rwy'n cofio yno – oherwydd y ffordd y siaradodd – ni allai rhywun ddadlau yn ei erbyn, oherwydd nid oedd unrhyw beth diriaethol i'w ddadlau; roedd yn agwedd mor ddi-syfl ac mor wael ei meddwl, fel nad oedd unrhyw beth ar y pryd hwnnw, roeddwn i'n teimlo nad oedd unrhyw beth y gallwn ei wneud am Stan Price. Felly, rwy'n cofio imi gerdded i lawr i'r traeth – nid wyf yn gwybod a ydych chi'n adnabod Aberystwyth ond mae'n draeth cerrig nid yn draeth tywodlyd – ac eisteddais ar y cerrig mân ac wylo i'r môr. Roeddwn i mor rhwystredig ac mor ofidus o feddwl fy mod i yma wedi dod i ffwrdd o'r peth hwn dim ond i'w gyfarfod eto.



AJR